

BWEA

www.bwea.com



Delivering the UK's wind, wave and tidal energy

Ynni gwynt yng Nghymru - Cyflwr y Diwydiant Adroddiad gan BWEA Cymru

16^{eg} Gorffennaf 2009



photo credit front cover: Tegni Cymru Cyf Wind farm

BWEA
Greencoat House
Francis Street
London SW1P 1DH
United Kingdom

Tel: +44 (0)20 7901 3000
Fax: +44 (0)20 7901 3001

www.bwea.com

natur**ally**responsible[®] 



Printed by **Seacourt** to the most stringent environmental systems using **Waterless** Offset (0% water and 0% Isopropyl alcohol or harmful substitutes), 100% renewable energy and vegetable oil based inks on paper with at least 50% recycled content. **Seacourt** is registered to EMAS and ISO 14001, prints to ISO12647 Colour Standard, is a CarbonNeutral[®] company and FSC certified TT-COC-2132.

Designed by: green-creative environmental design agency www.green-creative.net

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn asesu cynnydd cyfredol y datblygiad mewn ynni gwynt yng Nghymru dros rychwant bywyd canllaw cynllunio 2005 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn edrych ar gerrig milltir sydd wedi eu cyrraedd yn ddiweddar, yn ymchwilio i berfformiad cynllunio ac yn canfod beth sy'n atal hyn rhag digwydd. Drwy gyfrifo cyflenwad y Mega Watt (MW) sydd wedi ei waredu ers Gorffennaf 2005 mae'r adroddiad yn dangos yn glir y bydd Cymru yn methu'r targedau gweithredol sydd wedi eu gosod hyd at 2010 yn eithaf sylweddol.

Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

Yng Ngorffennaf 2005, wedi blynyddoedd o ymgynghori fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllaw cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy; Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (TAN 8). Mae TAN 8 yn ogystal â Pholisi Cynllunio Cymru (PPW) a Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS) ar Ynni Adnewyddadwy yn darparu canllaw cynllunio cenedlaethol i awdurdodau lleol gan bennu'r prosiectau sydd o dan 50MW, ac fel datganiad o bolisi cenedlaethol, mae'n berthnasol i gynlluniau sydd dros 50MW a benderfynir gan Lywodraeth Prydain o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989.

Pwrpas TAN 8 yw ceisio cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Cymru, sy'n cynnwys cyflenwad ychwanegol o 800MW o ffermydd gwynt ar y tir. Nodwedd sylfaenol o bolisi TAN 8 yw ei

fod yn seiliedig ar fframwaith strategol cynllunio gofodol. Felly, darganfuwyd saith ardal 'chwilio' ledled Cymru i fod y rhai mwyaf addas i leoli ffermydd gwynt mawr ar y tir a'r rheiny dros 25MW. Gelwir yr ardaloedd yma yn Ardaloedd Chwilio Strategol (SSAs).

Targedau

Pan gafodd TAN 8 ei gyhoeddi roedd gan Lywodraeth y Cynulliad darged ynni adnewyddadwy i gynhyrchu 4TWh y flwyddyn erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd targed 2010 daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y byddai'n rhaid cyflenwi 800MW yn ychwanegol drwy ffermydd gwynt ar y tir, tra byddai'n rhaid i 200MW pellach ddod o ffermydd gwynt ar y môr a ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill.

Er mwyn cyrraedd targed ynni adnewyddadwy Llywodraeth y Cynulliad o 4TWh y flwyddyn erbyn 2010, fe gynhaliwyd asesiad i ddarganfod capasiti ynni gwynt o fewn pob SSA. Fel y nodir yn TAN 8, mae'r asesiad yn awgrymu y gallai SSAs gyda'i gilydd gasglu hyd at oddeutu 1120MW yn ychwanegol o gapasiti o ffermydd gwynt ar y tir. Ystyrir bod y raddfa hon o hyblygrwydd yn angenrheidiol i sicrhau y byddai cyfanswm o 800MW o wynt ar gael erbyn 2010. I lwrpas yr adroddiad hwn, mae cynnydd tuag at dargedau ar y tir ac ar y môr yn cael ei fesur o Orffennaf 2005 pan gafodd TAN 8 ei fabwysiadu.

Cynnydd 2005 – 2009

I gyrraedd y targed ychwanegol o 800MW o ynni gwynt ar y tir erbyn diwedd 2010, fe fyddai'n rhaid cael cyfartaledd o 12.3MW i ddod ar lein yng Nghymru pob mis o Orffennaf 2005. Drwy olrhain cynnydd cronol yr ynni a gynhyrchir o'r newydd ar y tir, mae'n

bosibl dilyn datblygiad y targed yn y blynyddoedd ers cyhoeddi TAN 8. Tir Mostyn oedd y prosiect cyntaf i gyfrannu tuag at y targed o 800MW gyda 21.25MW yn dod ar lein ym Medi 2005. Y nesaf i ddilyn oedd Hafoty Uchaf (0.85MW) a Mynydd Clogau (14.5MW) yn gynnar yn 2006 ac yna Ffynnon Or (32MW) ym Mehefin y flwyddyn honno.


Gyda chyfanswm o 68.6MW yn dod ar lein o fewn 12 mis a gyda gwerth 124.25MW o brosiectau o fewn y system gynllunio, roedd yna achos reit gryf i fod yn eithaf optimistaidd bod cynnydd yn cael ei wneud er gwaethaf y ffaieth eu bod 49% y tu ôl i'r amserlen fisol.

Fodd bynnag, fe ddilynodd cyfnod hesb hir gyda dim yn digwydd am 19 mis. Erbyn Ionawr 2008, fe ychwanegwyd 3.9MW o fferm wynt Braich Ddu. Erbyn y pwynt yma, gyda dim ond 72MW o gapasiti ychwanegol yn dod ar lein ers Gorffennaf 2005, roedd hi'n dod yn fwyfwy amlwg na ellid cyrraedd y targedau o fewn terfyn amser 2010.


Erbyn ail gynhadledd flynyddol BWEA Cymru yng Nghorffennaf 2008, a gan nad oedd unrhyw symudiad ers Ionawr, doedd Cymru ddim ond wedi cyrraedd prin 9% yr oedd ei angen. Os byddai'r cynnydd wedi cadw'n gyson â'r hyn roedd ei angen yn fisol er mwyn cyrraedd y targed, dylai'r ffigwr fod oddeutu 440MW. Felly, o Orffennaf 2008 yr oedd Cymru 84% y tu ôl i amserlen cwrdd â'r targed.

Dros y 12 mis diwethaf, mae yna fymryn o gynnydd wedi bod. Fe ddaeth prosiect Moel Malogan 11.7MW ar lein yn yr Hydref ac wedyn prosiect Carno 2 gyda 15.6MW yn dod â'r cyfanswm yn agos i farc y ganrif. Fis diwethaf fe ychwanegwyd tri thyrbîn newydd ar safle tir llwyd Castell Pill a ychwanegodd 2.7MW yn fwy i'r cyfanswm sydd erbyn hyn yn 102.5MW – dim ond 13% o'r hyn sydd ei angen erbyn 2010. Pe byddai cynnydd wedi bod yn unol â'r targed, yna fe ddylai fod tua 580MW ar gael o gapasiti wedi'i osod. O ganlyniad, y mae Cymru yn dal 82% tu ôl i'r amserlen – dim ond cynnydd bychan ers y flwyddyn ddiwethaf.


Ffigwr 1. Cynnydd tuag at darged TAN 8 - Capasiti Gweithredol



Ffigwr 2.



Ffigwr 3.



Fodd bynnag, mae'n glir o Ffigwr 2 a 3 uchod fod canolbwyntio yn unig ar brosiectau sydd wedi dod yn weithredol yn hepgor potensial y prosiectau sydd wedi cael caniatâd neu sydd oddi fewn y system gynllunio ar hyn o bryd ac yn disgwyl am benderfyniad. Mae adrannau canlynol yr adroddiad yn canolbwyntio ar botensial cyflenwi ynni gwynt yng Nghymru, a rhai o'r rhwystrau a wynebwr ar hyn o bryd wrth geisio gwireddu'r potensial hwn.

Prosiectau o fewn y System Gynllunio

Pan lansiwyd TAN 8 yng Nghorffennaf 2005, dim ond un prosiect oedd o fewn y system gynllunio – Ffynnon Or - fe gyfrannodd y comisiynu dilynol at darged 2010. Absenoldeb polisi cynllun ynni adnewyddadwy i lywio datblygiad oedd yn gyfrifol am y diffyg prosiectau o fewn y system gynllunio ar y pryd, a hynny yn ei dro yn effeithio'n sylweddol ar hyder y datblygwr.

Ers cyhoeddiad TAN 8 mae yna gynnydd wedi bod yn y ceisiadau a'r caniatâd cynllunio sydd wedi ei roi. Ar y cyfan mae yna 15 cais am ffermydd gwynt wedi eu derbyn ers Gorffennaf 2005 a fydd yn cyfrannu 229MW at y targed.

Yn nhermau ceisiadau cynllunio, fe gyflwynwyd wyth prosiect ym mlwyddyn gyntaf TAN 8, cyfanswm capasiti o 124MW. Fe gynyddodd hyn i 320MW erbyn Gorffennaf 2007. Erbyn Gorffennaf 2008, roedd 18 prosiect Cymreig o fewn y system gynllunio gan gynrychioli cyfanswm o 536MW – un a oedd dros 50MW ac felly i'w benderfynu gan Lywodraeth Prydain.

O Orffennaf 2009, mae cyfanswm capasiti gwynt ar y tir o fewn y system gynllunio wedi codi yn anhygoel a bellach mae 22 prosiect sy'n cynrychioli 880MW. Yn y 48 mis ers cyhoeddi'r polisi mae yna gyfanswm o 36 fferm wynt wedi cael eu cyflwyno i'r system gynllunio gan gynrychioli 1,188MW. Mae lefel y gweithgaredd hwn yn ddatganiad clir o ddiddordeb yng Nghymru gan y diwydiant gwynt, gan awgrymu fod y targed o 800MW yn fwy na phosib, er nad o fewn y cyfnod amser.

Graddfa Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio

Mae'r amser y mae'n ei gymryd i awdurdodau cynllunio a'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu ar geisiadau ffermydd gwynt yn destun pryder mawr i'r diwydiant. Mae'n rhwystro ac yn tansilio'r nod o gyrraedd targedau.

Fel cyfanswm, mae datblygwyr o'r 24 prosiect a ystyriwyd yn y pedair blynedd diwethaf wedi gorfod aros 21 mis ar gyfartaledd am eu penderfyniad. Gan ystyried 6 prosiect a aeth i apêl, fe orfu i'r 18 oedd ar ôl aros 17 mis ar gyfartaledd i awdurdodau lleol wneud penderfyniad. Digwyddodd hyn er bod awdurdodau lleol yn gweithio tuag at darged statudol o 16 wythnos ar gyfer penderfynu ar geisiadau. Mae'n glir fod y system gynllunio'n dal yn araf, llafurus a drud i ddatblygwyr sydd yn ceisio datblygu prosiectau ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru.

O blith y prosiectau sy'n ymddangos yn y data 'o fewn y system gynllunio', mae nifer wedi aros o fewn y system gynllunio, heb benderfyniad o un flwyddyn i'r llall. Mae hyd at 4 prosiect wedi bod o fewn y system gynllunio ers dros ddwy flynedd ers 2005, gydag un prosiect: estyniad i Fferm Wynt Blaen Bowi wedi aros 51 mis

am benderfyniad terfynol gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym Mehefin 2009.

Cymeradwyo Prosiect

Er yr holl brosiectau o fewn y system gynllunio, mae lefel y penderfyniadau dros y pedair blynedd diwethaf wedi aros yn isel. O fewn y 12 mis yn dilyn cyhoeddiad TAN 8, dim ond un prosiect (Carno 2) fu'n llwyddiannus. Gwelwyd cynnydd da o fewn y deuddeg mis canlynol, gyda 84MW yn cael ei gymeradwyo yn 2006-2007. Yr oedd yna gynnydd pellach yn 2007-09 o 101MW. Fodd bynnag, mae lefel y capasiti a gymeradwywyd yn y deuddeg mis diwethaf wedi lefelu allan, gyda 101MW yn fwy wedi ei gymeradwyo. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae yna 15 prosiect wedi eu cymeradwyo gyda chyfanswm o 239MW, gan roi cymhareb o 5MW o gapasiti wedi'i gymeradwyo y mis, 59% o dan y capasiti misol o 12.3MW sydd ei angen i sicrhau symudiad llyfn tuag darged 2010. Mae'n rhaid i'r gyfradd hon gynyddu'n sylweddol os yw Cymru am gyrraedd 800MW ym mlynnyddoedd cynnar y ddegawd nesaf.

Rhwystro i gyrraedd y Targed

Mae'n glir o'r lefel isel o gapasiti a gymeradwywyd hyd yma fod y system gynllunio yn rhwystro sylweddol wrth geisio cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy ar y tir. Mae'r mater o gynllunio yn mynd i gael ei drafod ymhellach yn yr adran hon, yn ogystal â nifer o ffactorau eraill, gan gynnwys grid a rhwydweithiau cludiant, a barn y cyhoedd, sydd hefyd yn dal unrhyw ddatblygiad o TAN 8 yn ôl. Mae BWEA Cymru yn gweithio'n frwdfrydig gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill i geisio cael ateb i'r

problemau hyn sy'n cyfrannu at ddiffyg o ran cyflenwi.

1. Rhwydwaith Grid

Yng Nghanolbarth Cymru, ble mae tair o'r saith Ardal Chwilio Strategol wedi eu lleoli, mae angen adeiladu llinell grid 400kv er mwyn cludo trydan a gynhyrchir gan ffermydd gwynt yn yr ardal. Mae diffyg grid yng Nghanolbarth Cymru felly'n rhwystro mawr o safbwynt cyrraedd targed 2010 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8.

Wrth weithio i geisio datrys y broblem hon, mae BWEA Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol, ac mae'r ddau gorff wedi cyd-ariannu astudiaeth sydd wedi nodi cyfyngiadau lefel uchel o ran y seilwaith grid yn yr ardal. Bellach mae'r astudiaeth hon wedi ei chwblhau ac mae'r Grid Cenedlaethol wedi dechrau proses ymgynghori gydag ymgynghoreion statudol. O Awst 2009 cynhelir ymgynghoriadau manwl pellach gan y Grid Cenedlaethol fydd yn cynnwys astudiaethau lleoliadau ac Asesiadau Effaith Amgylcheddol. Gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer is-orsaf a llinell grid 400kv yn cael eu paratoi erbyn diwedd 2010, mae'r Grid Cenedlaethol yn disgwyl y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau erbyn Hydref 2015.

Ni ellir gorbwysleisio'r pwysigrwydd o adeiladu rhwydwaith grid ychwanegol yng Nghanolbarth Cymru, gan fod canran uchel o'r ceisiadau cynllunio sydd wedi neu sydd ar fin cael eu cyflwyno wedi eu lleoli yn yr ardal hon. Tra bydd pedwar prosiect gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu o 204MW yn gallu mynd rhagddynt yng Nghanolbarth Cymru cyn i'r llinell grid newydd fod yn ei lle, a chymryd eu bod yn cael caniatâd cynllunio, ni fydd y rhan fwyaf o'r prosiectau yn gallu cynhyrchu trydan nes bydd y llinell grid newydd wedi ei hadeiladu.

Felly mae diffyg rhwydwaith grid yng Nghanolbarth Cymru tan 2015 yn ffactor allweddol i'w ystyried wrth geisio amcangyfrif a fodlonir targed TAN 8. Bydd yn rhaid cynyddu'r trydan a gynhyrchir yn y pedair Ardal Chwilio Strategol eraill er mwyn cau'r bwlch.

Hefyd mae rhai ystyriaethau o ran y ddwy rwydwaith grid sy'n gwasanaethu gogledd a de'r wlad, ond ar hyn o bryd mae digon o gapasiti yn y system ar gyfer cyrraedd y targed a osodir ar gyfer cynhyrchu trydan o ffermydd gwynt.

2. Rhwydweithiau Cludiant

Mae'r ffaith bod nifer o safleoedd ffermydd gwynt yn cael eu hadeiladu'r un pryd o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol wedi bod yn destun pryder oherwydd nifer ac amllder symudiadau llwythi mawr ar y ffyrdd. Mae'n debyg mai dyma'r achos ym mhob Ardaloedd Chwilio Strategol ond yn sgil nifer uchel y prosiectau arfaethedig, mae'n fwy amlwg yng Nghanolbarth Cymru. Wrth weithio i ddatrys y pryderon hyn, mae is-grŵp Cludiant BWEA Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda LICC, Cyngor Powys, Asiantaeth Priffyrdd Canolbarth Cymru ac Awdurdodau'r Heddlu i reoli'r effeithiau hyn a chomisiynwyd y gwaith o greu 'dull asesu' fydd yn mapio'r holl gyfyngiadau er mwyn i'r awdurdodau bennu amserlen o symudiadau cludiant. Mae'r is-grŵp hefyd wedi bod mewn trafodaeth â Gwasanaethau'r Heddlu a LICC o safbwynt sefydlu uned heddlu Cymru gyfan benodedig fydd yn gallu rheoli'n strategol symudiadau cerbydau mewn confoi. Wrth i'r materion hyn ddatblygu, mae'n hanfodol trwyddedu 'ymarferion' symudiadau cerbydau tebygol, a bod hyn yn digwydd mor fuan â phosib, er mwyn i'r awdurdodau a'r diwydiant ddod o hyd i'r atebion mwyaf priodol ac ymarferol.

3. Cynllunio

Fel y gwelir yn yr adroddiad hwn, mae'r system gynllunio leol yn methu i ddelio'n effeithiol â cheisiadau cynllunio ffermydd gwynt. Trwy nodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr, gosododd TAN 8 ragdybiaeth gynllunio o blaid datblygu o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn, mae'r broses gynllunio'n dal yn araf ac anrhagweladwy, gydag enghreifftiau o geisiadau'n cael eu gwrthod yn groes i argymhelliad swyddogion, neu yn cael eu galw i mewn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae darpariaethau a wnaed o fewn TAN 8 ar gyfer awdurdodau cynllunio i gynnal arferion 'mireinio' lleol o fewn pob Ardaloedd Chwilio Strategol, er mwyn "guide and optimise development within each of the areas" [1] yn ymarferol, wedi cyfrannu at oedi o ran cynllunio, gyda nifer o geisiadau'n gorfod aros am flynyddoedd cyn unrhyw benderfyniad tra bod astudiaethau mireinio'n cael eu cynnal. Gyda nifer o awdurdodau cynllunio'n dal heb gwblhau eu hymarferion mireinio o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol, a'r dryswch presennol ynghylch pwysigrwydd yr astudiaethau hyn, mae'r ymyrraeth polisi hwn wedi creu rhwystredigaeth ychwanegol.

Hefyd, ac yn sgil y baich gwaith gormodol y mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn ei brosesu, mae lefel yr adnoddau ariannol a'r adnoddau staffio medrus sydd ar gael i ddelio â cheisiadau'n effeithiol yn bryder mawr i'r diwydiant. Mae rhanddeiliaid cynllunio ar bob lefel, yn dal i gael eu tan-gyllido. Os ydym am gyrraedd targedau ar gyfer yr holl fathau o ynni adnewyddadwy, mae angen ar fyrder am addysg ac adnoddau ychwanegol ar draws y bwrdd - mewn cynghorau, ymgynghoreion statudol a'r Llywodraeth.

Tra bod BWEA Cymru'n nodi ac yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan LICC o adolygiad cynllunio ac adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, rydym yn bryderus y bydd rhanddeiliaid cynllunio allweddol eraill yn dal i gael eu tan-gyllido.

4. Y Farn Gyhoeddus

Mae arolygon barn cyhoeddus yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru o blaid ffermydd gwynt fel ffordd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Er gwaethaf hyn, mae nifer o grwpiau penodol sydd yn erbyn ffermydd gwynt wedi lledaenu camwybodaeth ac ofnau sydd wedi cael dylanwad negyddol ar rai cymunedau a gwleidyddion. Mae angen mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r angen am ynni adnewyddadwy i sicrhau cyflenwad ynni a lleihau ein hallyriadau carbon.

Ffermydd Gwynt ar y Môr

Er gwaethaf y ffaith bod TAN 8 wedi nodi mai ffermydd gwynt ar y tir yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chyflymaf i gyrraedd targedau cyffredinol Cymru o ran ynni adnewyddadwy, mae'n bwysig cofio bod TAN 8 yn delio â chynllunio pob math o ynni adnewyddadwy. Roedd y polisi'n datgan, yn ychwanegol at y targed o 800MW o ynni ychwanegol gan ffermydd gwynt ar y tir, bod angen 200MW pellach o gapasiti gosodedig gan ffermydd gwynt ar y môr a mathau eraill o ynni adnewyddadwy.

Mae ceisiadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr bron bob amser yn cael eu penderfynu gan Adran 36 o'r Ddeddf Trydan ac felly, cyfyngedig yw dylanwad polisi cynllunio LICC ac awdurdodau lleol. Ym mis Gorffennaf 2005 roedd gan Gymru eisoes 60MW o gapasiti gosodedig ar y môr gyda 198MW pellach wedi ei gymeradwyo ond yn aros i gael ei adeiladu. Ar hyn o bryd mae un fferm wynt yn cael ei hadeiladu fydd â 90MW o gapasiti gosodedig – 45% o'r targed ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr ar gyfer 2010. Mae mathau eraill o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ers 2005 hefyd yn cyfrannu.

Yn Rhagfyr 2008 cymeradwyodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) gais cynllunio ar gyfer prosiect Gwynt-y-Môr sydd â chyfanswm capasiti gosodedig o 750 MW.

Prosiectau'r Comisiwn Coedwigaeth

Mae rhan fawr o'r tir a nodwyd o fewn y saith Ardaloedd Chwilio Strategol yn TAN 8 yn cael ei rheoli ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Y targed o ran capasiti gosodedig

ar gyfer y chwe safle Comisiwn Coedwigaeth o fewn y saith Ardal Chwilio Strategol ar hyn o bryd yw 641.5MW, ac amcangyfrifir y bydd y cyfanswm capasiti maes o law o bosib yn fwy na 700MW.

Mae'n debyg y bydd gan y rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynir o fewn safleoedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru gapasiti o fwy na 50MW, ac felly Lywodraeth y DU fydd yn penderfynu arnynt neu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael ei sefydlu. Bydd yn gwbl weithredol ddiweddi fwyddyn nesaf. Mae BWEA Cymru'n gobeithio y bydd y penderfyniadau a wneir, a'r amser a gymerir i benderfynu ar brosiectau o fewn safleoedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn fodd i sicrhau'r capasiti hwn yn hwylus.

Fodd bynnag, oherwydd yr ymarfer tendro manwl gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, mae'r cynnydd o ran cyflawni prosiectau yn yr ardaloedd hyn wedi bod yn araf iawn hyd yma. Mae pum datblygwr yn ddiweddar wedi arwyddo Cytundebau Opsiwn gyda'r Comisiwn, sy'n caniatáu iddynt ofyn am ganiatâd cynllunio ar dir a reolir gan y Comisiwn o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol, ond nid yw'r ceisiadau wedi eu cyflwyno hyd yma ac mae datblygwyr yn dal i baratoi eu prosiectau i'w cyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio.

Yn sgil yr amser sy'n debygol o fod ei angen i gyflwyno'r prosiectau hyn, mae BWEA Cymru'n credu y dylai'r prosiectau hyn gael eu hystyried fel rhai sy'n cyfrannu tuag at darged 2020, yn hytrach na thargedau'r sir ar gyfer 2010.

Rhagolygon o ran Cyrraedd y Targed

Mae'n hynod anodd rhagweld pryd y bydd 800MW ychwanegol TAN 8 yn cael ei ddarparu gan fod cymaint o ffactorau newidiol y mae'n rhaid eu hystyried. Gyda thair Ardal Chwilio Strategol â tharged dangosol o 500MW, mae Canolbarth Cymru'n ardal allweddol o ran cynhyrchu ynni. Mae cymaint â 592MW yn y system gynllunio ar gyfer prosiectau ym Mhowys yn unig, a disgwylir mwy o geisiadau.

Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, mae Canolbarth Cymru hefyd yn ardal sy'n wynebu rhwystrau mawr o ran grid a chludiant. Bydd llond llaw o brosiectau'n gallu mynd rhagddynt heb ail-gryfhau'r grid, a chymryd eu bod yn cael caniatâd cynllunio, ond wedyn bydd yn rhaid i'r prosiectau hyn oresgyn rhwystrau ychwanegol o ran cludiant.

Gan roi ystyriaethau'n ymwneud â grid a chludiant i'r naill ochr, a seilio'r cyfrifon unig ar sail cyfartaledd o 21 mis i benderfynu ar geisiadau, a hefyd y gyfradd o 62% o geisiadau a gymeradwyir ar gyfer ffermydd gwynt yng Nghymru, mae'n bosib amcangyfrif pryd y cyrraedd y targed o 800MW o safbwynt ceisiadau a gymeradwyir.

Gan dybio y gwneir penderfyniad ynglŷn â'r holl brosiectau sydd wedi eu cyflwyno ers 21 mis, yn y 12 mis nesaf, ac y gwneir penderfyniad ynglŷn â'r holl brosiectau sy'n weddill yn unol â'r cyfartaledd amser o 21 mis, mae BWEA yn credu y bydd y

targed o 800MW yn cael ei gyrraedd o safbwynt ceisiadau a gymeradwyir erbyn canol 2011.

Fodd bynnag, am y rhesymau a drafodwyd uchod, dylid nodi na fydd llawer o'r capasiti hwn ar gael tan ar ôl 2015, ac felly bydd Cymru wedi methu â chyrraedd targed 2010 TAN 8 o 800MW o gapasiti gweithredol ychwanegol o bell ffordd. Erbyn hyn bydd angen i Gymru hefyd fod wedi cymeradwyo'r rhan fwyaf o gapasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol sy'n rhaid bod yn weithredol erbyn 2020, os ydym am gyrraedd ein targedau UE 2020 mwy hirdymor, a thargedau 2025 a osodir o fewn y Trywydd Ynni Adnewyddadwy.


Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos yn glir lefel uchel y diddordeb a'r gweithgaredd sydd gan ddatblygwyr ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru. Rhwng lansio TAN 8 ym mis Gorffennaf 2005, a heddiw, cyflwynwyd 36 o brosiectau i'r system gynllunio gyda chyfanswm gwerth capasiti cynhyrchu ynni o 1,188.25MW. Roedd y rhelyw o'r rhain (30 prosiect gyda chyfanswm capasiti o 822MW) yn is na'r trothwy o 50MW ac felly'n cael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol.

Nid yw cyfradd y gwaith a ddangosir gan ddatblygwyr yn cael ei adlewyrchu gan y system gynllunio leol a gymeradwyodd lai na 200MW yn yr un cyfnod. O ychwanegu'r penderfyniadau cadarnhaol a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio, daw'r gwerth hwn i 239MW, ond y gwir yw, nid yw'r system gynllunio yng Nghymru'n dal i fyny â chyfradd y geisiadau nac amserlen polisi allweddol y llywodraeth.

Mae BWEA Cymru yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog Cynaliadwyedd Jane Davidson o

Ffigwr 4.



adolygiad i'r system gynllunio leol. Rydym yn argymhell yn gryf bod yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar ddadflocio'r system mewn perthynas â cheisiadau ffermydd gwynt. Mae'r cyhoeddiad o swm ychwanegol o £1.75 miliwn wedi ei rannu rhwng yr awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru'n galonogol. Fodd bynnag rydym yn annog LICC i ddyrannu mwy o adnoddau wedi eu targedu'n benodol i awdurdodau cynllunio lleol, a rhanddeiliaid cynllunio allweddol eraill, fydd yn rhan o'r gwaith o asesu nifer cynyddol uchel o geisiadau am ynni adnewyddadwy.

Er mwyn sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd, dylai LICC annog awdurdodau lleol i weithredu amcanion y polisiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy, y maent yn ymrwymedig i'w gweithredu.

Mae rhwystrau eraill, sef grid a chluddiant. Bydd cynnydd tuag at dargedau presennol a rhai yn y dyfodol yn cael ei atal nes bydd y ddwy broblem wedi eu datrys. Er nad yw materion grid cenedlaethol wedi eu datganoli, mae'n hanfodol bod yr holl rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses yn parhau i gydweithio i sicrhau bod y gwaith o adeiladu'r llinell yn dechrau ddim hwyrach na 2015.

Yn yr un modd, rhaid cael ymdrech gyflynol i ddatrys y broblem cludiant. Mae BWEA Cymru eisoes wedi dangos menter ac arweinyddiaeth drwy gomisiynu gwaith fydd yn darparu gwybodaeth y bydd ei hangen ar yr awdurdodau er mwyn gwneud asesiad cywir. Mae BWEA Cymru hefyd yn ystyried cais i sefydlu uned cludiant heddlu Cymru gyfan benodedig. Rydym yn croesawu cyfraniad rhanddeiliaid eraill ac yn gobeithio y bydd y mater yn fuan iawn, yn peidio â bod yn broblem fawr nac yn anhwylystod.

Mae LICC yn bwriadu diwygio TAN 8 yn 2010 gan gynyddu targedau ynni adnewyddadwy gan wahanol ffynonellau. Mae polisi da'n dibynnu ar dargedau fel ffordd i fesur cynnydd a llwyddiant. Fodd bynnag, mae targedau yn ystyrlon, yn unig, os oes ymdeimlad o

berchnogaeth a chyfrifoldeb dros eu cyflawni. Mae gweithredu TAN 8 yn ystod y pedair blynedd diwethaf wedi rhoi nifer o enghreifftiau sut y gellir gwella llawer ar bolisi newydd.

Mewn adolygiad diweddar yn 2007 a gomisiynwyd gan LICC, i botensial cynhyrchu ynni gwynt o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol presennol, nodwyd posibilrwydd o gynnydd o dros 50% ar gapasiti dangosol o 1,120MW 2005 TAN 8. Gyda golwg ar y gwersi a ddysgwyd yn y pedair blynedd diwethaf, mae BWEA yn annog LICC i ymrwymo i sicrhau capasiti ynni gwynt ar y tir o tua 2,500MW o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol presennol, fel yr awgrymwyd gan Arup. [2]

Yn olaf, mae BWEA Cymru'n annog LICC, cynrychiolwyr etholedig a chyrrff ac unigolion dylanwadol, i gydnabod a chyfathrebu'n eang yr angen ar fyrder am ynni adnewyddadwy i sicrhau cyflenwad ynni, gan leihau ein cyfraniad at y Newid yn yr Hinsawdd, a chanlyniadau'r cyfraniad hwnnw fydd yn cael effaith fawr ar Gymru.